

CO16212 – Ysgol Pencae - Parth Diogelwch Ysgol (Highfields)

Disgrifiad o Gynnig y Cynllun

Derbyniwyd cais gan Ysgol Pencae i ymchwilio i broblemau parcio yn agos at yr ysgol a'r strydoedd sydd o'i hamgylch. Mae nifer o broblemau wedi'u nodi sy'n ymwneud â phobl yn parcio gan rwystro bysus rhag gallu cyrraedd yr ysgol, yn ogystal â phroblemau'n ymwneud â diogelwch cerddwyr yn yr ardal.

Cynhaliwyd arolygon a gadarnhaodd fod cerbydau yn parcio yn yr ardal wrth ymyl y safle a'r ffyrdd o'i gwmpas ac y byddai y byddai parcio yn y fath fodd yn peryglu diogelwch plant ysgol a defnyddwyr eraill y ffordd, gan y byddai'r cerbydau dan sylw yn effeithio ar allu gyrwyr i weld yn glir a throi'n ddiogel.

Yn unol ag arfer y Cyngor i wella diogelwch cerddwyr, cynigir cyflwyno llinellau melyn dwbl yn nodi Dim Aros ar Unrhyw Adeg wrth nifer o gyffyrdd yn yr ardal. Bydd hefyd gofyniad i gyflwyno llinell felen unigol yn nodi Dim Aros Dydd Llun i Ddydd Gwener 8am – 4:30pm yn union gyferbyn â mynedfa'r ysgol ar gyfer cerbydau er mwyn galluogi cerbydau mwy i fynd i mewn i diroedd yr ysgol.

Fel rhan o'r cynnig hwn cynigir hefyd gyflwyno cyfyngiad cyflymder o 20mya yn y ffyrdd canlynol: Gilian Road, Whitehall Road, Highfields, Greenwood Road, Llantrisant Rise a Baynton Close.

Mae Cyngor Caerdydd o blaid rhoi cyfyngiadau cyflymder ar waith i arafu'r traffig mewn ardaloedd preswyl a'i nod yw creu dinas 20mya. Mae Deddf Deithio Llesol (Cymru) yn rhoi dyletswydd ar Awdurdodau Lleol Cymru i hybu dewis cerdded a beicio i deithio yn y lle cyntaf.


Mae cyfyngiadau cyflymder 20mya yn lleihau'r risg i ddefnyddwyr y ffordd a'i gwneud yn haws i bobl ddefnyddio dulliau teithio iachach a mwy cynaliadwy. Gall cymdogaethau gyda chyflymderau traffig is hefyd fanteisio ar amgylchedd cymdeithasol gwell, ffyrdd haws o groesi ffyrdd ac amodau mwy diogel i bawb.

Gwybodaeth ychwnaegol ynghylch mesurau rheoli traffig

Gorchymyn Rheoleiddio Traffig. Cyfyngiadau yw'r rhain, a osodir ar y Briffordd, sy'n cyfarwyddo, rheoli neu wahardd symudiadau defnyddwyr y ffordd. Er enghraifft, cyfyngiadau cyflymder 20 mya. Dim Mynediad. Dim Troi i'r Dde. Traffig Unffordd. Dim Aros. Rhaid i'r rheoliadau hyn fynd trwy broses gyfreithiol hir. Os cânt eu cymeradwyo, gosodir arwyddion neu linellau ar y safle a bydd yr Heddlu neu eu Wardeniaid Traffig yn eu gorfodi.

Mae'r Cyngor yn ymgynghori ar y cynnig i weithredu cynllun rheoli traffig yn seiliedig ar y cynllun.

Mae rhagor o fanylion am yr ymgynghori hwn ar gael yn www.caerdydd.gov.uk/transportprojects ar y ddolen 'gweld ymgynghoriadau'. Fel arall, e-bostiwch Projectautrafnidiaeth@caerdydd.gov.uk neu ffoniwch 029 2087 3289 i ofyn am gopi papur. Os hoffech wneud unrhyw sylwadau am y cynnig rhowch wybod i ni erbyn **28/07/2017**.



The Council is consulting on the proposal to implement a traffic management scheme based on the plan shown.

Further details about this consultation are available at Cardiff.gov.uk/TransportProjects using the 'view consultations' link. Alternatively, please e-mail TransportProjects@cardiff.gov.uk or telephone 029 2087 3289 to request a paper copy. If you would like to make any comments about this proposal please let us know by **28/07/2017**.